Mae gan Lu'r Ffiniau ddyletswydd dan Adran 55 o Ddeddf Ffiniau, Dinasyddiaeth a Mewnfudo 2009 i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant.

Cymerwn y ddyletswydd hon o ddifrif a gweithio i ddiogelu plant bregus a'r rhai a allai fod mewn perygl o gael eu masnachu.

Os ydych yn teithio gyda phlentyn (dan 18) ac nid chi yw rhiant y plentyn, neu'n ymddangos nad chi yw'r rhiant (er enghraifft, os oes gennych chi enw teulu gwahanol), gallem ofyn ychydig o gwestiynau i chi ynglŷn â'ch perthynas â'r plentyn. Gwnawn hynny'n gyflym bob amser ac mewn ffordd sensitif ac sy'n ystyried lles y plentyn a'r oedolyn dan sylw.

Gobeithiwn eich bod yn sylweddoli pa mor bwysig yw'r gwiriadau ychwanegol a gwblheir gennym ar gyfer y plant sy'n teithio i mewn i'r DU ac yn deall y rhesymau amdanynt petaech chi farn y cawsoch eich oedi yn ddiangen.

Nid yw'n fwriad gennym oedi'ch taith yn hirach na'r angen. Y tro nesaf y byddwch yn teithio, gall fod o gymorth i chi gludo tystiolaeth o'ch perthynas â'r plentyn a/neu'r rheswm pam yr ydych yn teithio gyda'r plentyn.

Gallai'r dystiolaeth hon gynnwys copïau o:

- **tystysgrif geni neu fabwysiadu sy'n dangos eich perthynas â'r plentyn**
- **tystysgrifau ysgariad / priodas os mai chi yw'r rhiant ond bod gennych gyfenw gwahanol i'r plentyn**
- **llythyr gan riant neu rieni'r plentyn yn rhoi awdurdod i'r plentyn deithio gyda chi ac sy'n rhoi manylion cyswllt os nad chi yw'r rhiant.**

Bydd Llu'r Ffiniau yn ceisio sefydlu'r berthynas rhwng plant a'r oedolion sydd gyda nhw neu sydd yn eu cwrdd wrth gyrraedd y DU, cyn caniatáu iddynt adael ffin y DU.

Am fwy o wybodaeth am Adran 55, ewch i'r wefan gov.uk

Border Force

[WELSH]